**Rhif: 6**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C20/0348/35/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **01/05/2020** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanystumdwy** |
| **Ward:** | **Llanystumdwy** |
| **Bwriad:** | **Defnyddio tir ar gyfer gwersylla / glampio amgen parhaol.** |
| **Lleoliad:** | **Tir ger Coed Mawr, Criccieth, LL52 0ND** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **GWRTHOD** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn ar gyfer defnyddio tir ar gyfer gwersylla glampio amgen parhaol fydd yn cynnwys 8 pod gwyliau, 1 pod gwasanaeth (*'utility'*) a 2 storfa 'container' ynghyd a gwaith trin carthffosiaeth a newidiadau i'r fynedfa bresennol gan gynnwys darparu arosfan bws.

1.2 Mae'r safle (sy'n gae amaethyddol) wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ac oddi allan i unrhyw ardal sy'n cael ei hadnabod oherwydd ei dirwedd arbennig yn y CDLl, Serch hynny, mae wedi ei leoli o fewn Safle Bywyd Gwyllt ymgeisiol Coed Mawr. Mae'r safle wedi ei amgylchynu ar 3 ochr gan goed aeddfed, yn ogystal â choed a gwrychoedd ar hyd ffon orllewinol y safle. Mae'r goedlan sy'n uniongyrchol i'r dwyrain o'r safle wedi ei gydnabod fel Coetir Hynafol a Lled-Naturiol. Nodir hefyd bod y safle yn gorwedd o fewn parth llifogydd B.

1.3 Bydd y podiau wedi ei leoli ar ochr gorllewinol ffordd mynediad newydd, a fydd yn rhedeg o'r de i'r gogledd trwy ganol y safle. Bydd y podiau wedi eu cysylltu i system trin carthffos a bydd y bwriad yn darparu rhwydwaith draen dwr gwyneb.

1.4 Bydd y podiau pren yn mesur 6m o hyd x 3.3m o led x 3m o uchder. Byddent wedi eu cladio gyda planciau pren cedrwydden (Western Red Cedar) neu llarwydden (Siberian Larch), gyda drysau UPVC a ffenestri derw. Bydd y podiau wedi eu paentio mewn lliw amgylcheddol tawel. Yn fewnol byddent yn darparu un gwely dwbl, gofod goginio/ymlacio ac ystafell ymolchi. Bydd gofod parcio yn cael ei ddarparu ar gyfer un car wrth ochr pob pod.

1.5 Bydd y 2 storfa container wedi eu cladio mewn pren. Nid yw'r bwriad yn amlygu'r cyfiawnhad am y storfeydd na pa liw y bwriadir eu paentio. Nid oes gwybodaeth wedi ei gyflwyno parthed y pod gwasnaeth arfaethedig.

1.6 Bydd coed a llwyni o rywogaethau cynhenid newydd yn cael eu plannu o fewn y safle.

Bydd y safle yn cael ei wasanaethu gan fynediad amaethyddol presennol oddi ar y ffordd B4411 a fydd wedi ei addasu i ddarparu lleiniau gwelededd mwy ac fydd yn golygu codi waliau carreg newydd i'w darparu. Nid yw'r bwriad yn nodi pa ddeunyddiau bwriedir eu defnyddio ar gyfer wyneb y ffordd. Nodir bod y mynediad presennol yn anaddas i gerbydau ac fel rhan o'r datblygiad bwriedir gwneud newidiadau sylweddol iddo sy'n golygu darparu lleiniau gwelededd gwell. Bwriedir hefyd darparu 'ardal aros am fws' ger y mynediad.

1.7 Mae'r wybodaeth a'r dogfennau isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais.

Asesiad Ecolegol

Asesiad Canlyniad Llifogydd

Strategaeth Draeniad

Asesiad Trafnidiaeth

Datganiad Dylunio a Mynediad

Cynllun Peirianneg Sifil

Asesiad Adrawiad Coed (BS: 5837/2012.)

1.8 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i' Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad oherwydd fod safle'r cais yn fwy na 0.5ha.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 1.22 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS1: Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt

PS 4 : Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 14: Yr Economi Ymwelwyr

TWR 3: Safleoedd carafanau sefydlog a siale a llety gwersylla amgen parhaol

PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn nodedig i gymeriad y dirwedd leol

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol

AMG 6: Gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol

CCA Cyfleusterau a llety i dwristiaid (2021)

CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (2019)

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021

Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol - 18 Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Dim hanes cynllunio perthnasol diweddar i'r safle

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Nid yw o fewn ffiniau'r Cyngor Tref ond mae pryder wedi'i fynegi am y fynedfa i'r lon a chonsyrn ei fod yn beryglus dros ben gan ei fod reit wrth ymyl pont Rhydybenllyg a hefyd ar gongl. |
| Uned Drafnidiaeth: | Mae'r gweledEdd o'r fynedfa yn dderbyniol imi, gyda golwg llawn dro y pont ac i fyny'r ffordd o Rhoslan. Dwi'n di awgrymu i'r ymgeisydd y byddai angen ailraddio lefelau'r ffordd mynediad ar tir nhw gan mae'n disgyn i lawr i'r safle yn eitha serth ar hyn o bryd. Tydi cynlluniau'r asiant ddim yn dangos lefelau, dim ond bwriad i lledu'r adwy trwy codi waliau ar radiws, a cynigaf amod priodol ar gyfer y lefelau.<br><br><u>Ymateb 01.06.2021</u><br><br>Diolch am cadarnhau pa cynlluniau sy'n berthnasol i'r cais.<br><br>Cadarnhaf mod wedi esgeuluso'r elfen safle bws ar y cynlluniau, ac wedi canolbwyntio ar leoliad a dyluniad yr adwy cerbydol mewn perthynas â'i heffaith ar tro y bont.<br><br>O ran y bwriad o ddarparu safle bws, heb gytundeb yr Adran Amgylchedd (gan gynnwys mewnbwn gan yr Uned Drafnidiaeth a'r Uned Cludiant) mae'n annhebyg y byddai'r 'stop' yn cael ei ystyried fel un swyddogol a gweithredol.<br><br>Y prif ystyriaethau yw'r angen, lleoliad diogel i ddefnyddwyr, a lleoliad ddiogel o ran defnyddwyr eraill y briffordd.<br><br>Yn yr achos yma tydi'r angen ddim yn amlwg. Er byddai'n cynnig cyfle i ymwelwyr ddal bws am gyfeiriad Criccieth mae'n debyg bydd y mwyafrif ohonynt yn dewis defnyddio cerbyd i grwydro'r Sir os |

am adael y safle ar ei gwyliau.

O ran lleoliad diogel i ddefnyddwyr, mae safle’r stop yn cynnig lle gwastad a thu hwnt i’r briffordd i ddisgwyl, ond dim ond ar un ochr o’r ffordd (cyfeiriad Criccieth), heb modd darparu ardal cyffelyb ar ochr arall y ffordd neu i bobl sy’n ymadael a’r bws o Criccieth, ac felly’n codi pryder o ran diogelwch a’r gallu i groesi a disgwyl am fws yn ddiogel.

Mae lleoliad y ‘stop’ hefyd yn codi pryder o ran diogelwch y ffordd. Mae’n agos i’r tro ar y bont, ac er y byddai cerbydau mawr yn pasio’n dyddiol, mae’r gweithred o gael bws yn stopio yn y ffordd am gyfnod i godi neu gostwng pobl yn debygol o amharu ar symudiadau eraill sy’n tramwy dros y bont. Yn ogystal mi all arwain at gerbydau’n ymdrechu i basio’r bws tra’n sefydlog, gan arwain iddynt groesi’r bont ar ochr anghywir y ffordd o amgylch y tro.

Yn sgil yr uchod, a’r annhebygrwydd i’r Cyngor dderbyn y safle bws fel safle ffurfiol, argymhellaf dileu’r elfen yma ar sail diogelwch y ffyrdd.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

**Risg Llifogydd -** Rydym yn fodlon bod y mesurau lliniaru a amlinellir yn y ACLl yn ddigon i fynd i'r afael yn ddigonol â'r perygl o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r safle. Felly, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad ar yr amod bod y cyflwr canlynol yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd:

**Amod:** Rhaid gosod lefel llawr gorffenedig y podiau o leiaf 450mm yn uwch na lefelau'r ddaear.

**Traeniad Aflan** - Cynigiodd y cais waith trin preifat yn wreiddiol. Fodd bynnag, cynigiodd y llun safle, a gawsom ar 27 Tachwedd 2020, "tanc storio budr" sy’n awgrymu defnyddio carthbwll. Buom yn cwestiynu'r defnydd o'r fath, nad yw'n amgylcheddol gynaliadwy, ac mae'r ymgeiswyr wedi diwygio'r cynlluniau safle ymhellach i gynnig gwaith trin preifat, sy'n ymddangos yn dderbyniol.

**Rhywogaethau a Warchodir -** Nodwn fod yr adroddiad Ecolegol Rhagarweiniol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (Cambrian Ecology, updated 2nd December 2020) wedi nodi nad oedd Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn defnyddio safle'r cais. Felly, nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais fel y'i cyflwynwyd.

Sut bynnag, byddem yn argymell i chi ymgynghori’ch ecolegydd ar unrhyw Rywogaethau Estron Goresgynnol a nodwyd ar y safle.

| | |
| --- | --- |
| Dŵr Cymru: | Datgan sylwadau arferol ac yn cynghori'r ymgeisydd i gysylltu efo Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd y bwriad i ddefnyddio gwaith trin carthion preifat. Angen ail ymgynghori os byddai sefyllfa yn newid ac angen cysylltu i'r brif garthffos. |
| Swyddog Coed (Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad | Mae'r safle wedi ei amgylchynu a choed, mae Coed Mawr wedi ei restru fel safle coetir hynafol. Mae'r podiau yn cael eu lleoli yn eithaf agos i'r coed /clawdd sydd yn ymylu y safle, felly bysai angen gwneud siŵr bod y podiau ddim yn pwyso i fewn i RPZ (root protection zone) y coed. Hefyd mae angen gwybodaeth ynglŷn â beth fydd y podiau wedi eu sefyll arno, gan y gall hyn gael effaith ar wreiddiau'r coed os yw yn rhy agos i'r RPZ. A oes adroddiad coed BS:5837/2012 wedi ei gyflwyno gyda'r cais? |
| Uned Draenio Tir (Ymgynghoriaeth Gwynedd) | Mae ein mapiau yn dangos fod cwrs dŵr yn rhedeg ar hyd ffin safle'r datblygiad ond nid yw'n ymddangos y byddai'r cynllun yn ymharu ar lif yr afon mewn unrhyw ffordd. Serch hynny cynghorir y datblygwr i osgoi gosod / codi unrhyw strwythurau o fewn 3m i gwrs yr afon oherwydd gallai hyn rwystro gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Yn ogystal, byddai angen Caniatâd Cwrs Dŵr Arferol ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar lif yr afon a dylir cysylltu â FCRMU@gwynedd.llyw.cymru am gyngor pellach.<br><br>Oherwydd maint a natur y datblygiad, bydd angen cyflwyno cais i'r SAB i'w gymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Mae strategaeth ddraenio cynaliadwy a chynllun cysylltiedig wedi eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio, ond hyd nes y gwneir cais i'r SAB mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd a fyddai cynllun arfaethedig y safle yn galluogi'r datblygiad i gydymffurfio'n llawn â'r gyfres o safonau SuDS cenedlaethol. |
| Uned Bioamrywiaeth | Mae'r ymgeisydd wedi darparu adroddiad Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol a gyflawnir gan Cambrian Ecology dyddiedig 23ain o Dachwedd 2019. Gallaf gadarnhau fod yr arolwg ac adroddiad wedi cael ei gwneud i safon dda.<br><br>Mae'r safle yn gorwedd o fewn Safle Bywyd Gwyllt Coed Mawr sydd yn cysylltu yn uniongyrchol i Safle Bywyd Gwyllt Afon Dwyfor.<br><br>Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r cais yma cyhyd â bod mesurau lliniaru (adar yn nythu, rhywogaethau gwarchodedig yr afon Dwyfor) a nodwyd yn adran 8 yr adroddiad gan Cambrian Ecology, yn ogystal â'r mesurau gwella bioamrywiaeth a nodwyd yn adran 9 yr adroddiad ac uchod yn cael eu hychwanegu i'r cynlluniau datblygu. Mae hyn yn |

cynnwys cynllun bioddiogelwch INNS (Invasive Non Native Species) ar gyfer y broblem Jac y Neidiwr ar y safle, y cynllun atal llygredd ar gyfer y cwrs dwr yn ogystal â'r mesurau lliniaru a nodwyd yn yr adroddiad coedyddiaeth.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi do di ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail cynllunio.

- Gormodedd o'r math yma o lety gwyliau yn yr ardal
- Materion priffyrdd
- Materion Bioamrywiaeth

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Ni chredir mai'r ymgeisydd yw perchennog y tir.
- Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar y safle

Derbyniwyd gohebiaeth yn cefnogi / rhoi sylwadau ar y cais ar sail:

- Bendithion i'r economi leol
- Diffyg darpariaeth o'r math yma o letya gwyliau.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r cais yn golygu sefydlu safle llety gwersylla amgen parhaol newydd. Mae polisi TWR 3 CDLl yn ́caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd newydd o'r math os ydynt y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac os gellir cydymffurfio gyda nifer o feini prawf penodol o fewn y polisi. Nid yw'r safle dan sylw wedi ei leoli oddi fewn i'r AHNE ac nid yw ychwaith o fewn Ardal Tirwedd Arbennig ac felly mewn egwyddor gellir ystyried addasrwydd y safle ar gyfer llety gwersylla amgen parhaol cyn belled fod y bwriad yn cwrdd gyda'r meini prawf o fewn Polisi TWR 3, sef:

I Ble gellir profi nad yw'n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd sialé neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol; a

II Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu'r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; a

III Bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

5.2 Mae Adrannau 3 (Twristiaeth - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol) a 5 (Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol) CCA Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (2021) yn rhoi arweiniad pellach parthed a'r meini prawf uchod.

***Maen prawf I. - Ble gellir profi nad yw'n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd siale neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol***

5.3 Mae'r maen prawf yma yn cyfeirio'n benodol at ormodedd o ddatblygiadau newydd. Er mwyn diffinio 'gormodedd' yn y cyd-destun hwn fe ddylid cyfeirio at baragraff eglurhad 6.3.69 sydd yn cyfeirio at 'Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri' (Gillespies, 2014). O fewn pob Ardal Cymeriad y Dirwedd (fel y diffinnir gan Strategaeth Tirwedd Gwynedd (2012)) fe asesir capasiti y dirwedd er mwyn canfod beth yw capasiti y dirwedd leol ar gyfer ychwaneg o ddatblygiadau siales neu garafanau gwyliau.

5.4 Mae'r datblygiad penodol hyn yn disgyn o fewn Ardal Cymeriad y Dirwedd G10 (Canol Llŷn). Mae'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn nodi beth yw capasiti dangosol ar gyfer yr Ardal Cymeriad y Dirwedd. Yn benodol mewn perthynas â'r ACD sydd yn berthnasol i'r cais hyn fe nodir: "Y tu allan i'r AHNEau a'r ATAau fe all fod rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach i fach iawn wedi eu lleoli yn sensitif ac wedi eu cynllunio'n dda, a ddylai berthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol". Mae'r Astudiaeth yn diffinio datblygiadau bach iawn fel rhai hyd at 10 uned a datblygiadau bach fel rhwng 10 - 25 uned. Bydd angen gan hynny rhoi ystyriaeth briodol i raddfa'r datblygiad arfaethedig yn y lleoliad dan sylw. Yn unol â'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd mae'r nifer o unedau (8 pod) a gynigir ar y safle yma yn cael ei ddiffinio fel datblygiad bach iawn.

5.5 Yn ychwanegol, ceir 4 safle carafanau sefydlog o fewn 0.7 cilomedr i'r safle. Serch hynny, nid oes safle Llety Gwersylla Amgen Parhaol yng nghyffiniau'r safle.

5.6 Yn nghyd-destun yr uchod ac o ystyried maint y safle arfaethedig ni ystyrir y byddai'r bwriad yn arwain at ormodedd o safleoedd o'r math yn yr ardal.

*5.7* ***Maen prawf II. - Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a / neu lle gellir cydweddu'r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd***

5.8 O fewn y Cynllun fe ddiffinnir lleoliad anymwthiol fel un sydd wedi cael ei sgrinio'n dda gan nodweddion o'r dirwedd sydd yn bodoli'n barod neu ble gellir cydweddu'r unedau'n hawdd yn y dirwedd mewn modd sydd ddim yn peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd.

5.9 Mae Polisi AMG3 yn nodi y bydd rhaid i ddatblygiadau ddangos nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar rinweddau a nodweddion sydd yn unigryw i'r dirwedd leol yn nhermau agweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol. Ymhellach, mae Polisi PCYFF 4 dylai pob datblygiad integreiddio gyda hyn sydd o'i gwmpas. Dylid gwrthod unrhyw gynlluniau sydd heb roddi ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio.

5.10 I'r perwyl hyn nodir fod safle'r bwriad wedi ei dirweddu'n ddigonol yn barod, ond ystyrir fod y gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu mynediad derbyniol i'r safle ynghyd a safle bws yn achosi datblygiad fyddai'n anaddas yn y dirwedd o ystyried y lleoliad gwledig a'r cymeriad presennol. I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn groes i'r maen prawf yma.

5.11 ***Maen prawf III - Bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd***

5.12 Mae'r fynedfa bresennol i'r safle yn annerbyniol ar gyfer gwasanaethu'r bwriad ac, o ganlyniad, mae bwriad gwneud newidiadau i'r fynedfa er mwyn darparu lleiniau gwelededd derbyniol. O safbwynt materion priffyrdd mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau y byddai'r lleiniau gwelededd yma yn dderbyniol ar gyfer y bwriad. Nodir fod cynlluniau diwygiedig wedi eu cyflwyno sy'n ychwanegu man aros ar gyfer bws i'r ochr orllewiniol y fynedfa ynghyd a symud 'chevron' presennol er mwyn darparu'r newidiadau i'r fynedfa. Ar sail sylwadau'r Uned Briffyrdd ar yr elfen yma, ystyrir fod darparu man aros bws yn y lleoliad yma gyda'r potensial i achosi perygl i ddefnyddwyr ffordd a cherddwyr.

5.13 Mae'r man aros ar yr un ochr i'r ffordd yn unig ac felly byddai unrhyw un sydd angen dal bws yn teithio tua Gaernarfon yn cael ei orfodi i sefyll ar y briffordd ei hun. Byddai'r arosfan yn galluogi i'r rhai hynny sydd am ddal bws i gyfeiriad Criccieth wneud hynny drwy sefyll ar lecyn pwrpasol oddi ar y ffordd, ond nid oes lle tynnu i mewn yn cael ei ddarparu. Golygai hyn y byddai bws yn arafu ac yn stopio nepell oddi ar cornel a bont dros afon gyda waliau carreg cul arni. Byddai traffig y tu ôl i'r bws yn cael ei orfodi i aros tu ôl i'r bws tra y bydd wedi stopio, neu goddiweddyd y bws ar ochr arall y ffordd ar gornel i'r dde ac yn teithio tuag at draffig heb unrhyw weledd o'r naill ochr.

5.14 Byddai gwelededd cerbydau sy'n tynnu allan o fynedfa'r bwriad hefyd yn cael ei effeithio gan y byddai'r bws yn stopio ar y ffordd cyhoeddus union i'r dde o'r fynedfa.

5.15 I'r perwyl hyn, ni ystyrir fod y bwriad yn darparu mynedfa gerbydol digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y tirwedd ac felly mae'r bwriad yn groes i ofynion y maen prawf yma.

**Mwynderau gweledol**

5.16 Fel y nodwyd uchod nid yw safle'r cais o fewn ardal sydd gyda dynodiadau tirwedd arbennig. Yn ogystal, mae'r coed aeddfed oddi amgylch y safle yn cysgodi'r safle o'r dirwedd ehangach. Ystyrir nad yw'r safle ei hun yn un ymwthiol yn y dirwedd a'i bod yn integreiddio'n dda gyda'r hyn o'i amgylch.

5.17 Er gwaethaf hyn, ac fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'r newidiadau i'r fynedfa bresennol ynghyd a darparu safle bws ger y fynedfa yn creu nodweddion mwy trefol fyddai'n debygol o gael effaith weledol sylweddol ac annerbyniol ar gymeriad yr ardal wledig yma. Ystyrir felly fod y bwriad yn groes i ofynion polisïau PCYFF 2 a 3.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.18 Yn gyffredinol, mae polisïau PCYFF 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd cyn belled na fyddent yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch.

5.19 Mae'r tŷ annedd agosaf i'r safle oddeutu 180 medr i ffwrdd ac nid oes llwybr cyhoeddus yn agos i'r safle. O'r herwydd mae'n annhebygol y bydd y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol

i fwynderau'r gymdogaeth leol ac ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisi PCYFF 2 y CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.20 Mae polisïau TRA 2 a TRA 4 CDLL yn ymwneud gyda asesu cynigion yn nhermau eu heffaith ar ddiogelwch ffyrdd. Mae'r bwriad yn golygu addasu mynedfa amaethyddol bresennol er mwyn ei gwella a darparu arosfan bws a byddai un gofod parcio ar gael ar gyfer pob pod gwyliau. Nid oes gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r sefyllfa parcio ac felly ystyrir o ran yr agwedd yma fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi TRA 2.

5.21 Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'r bwriad yn cynnwys gwneud newidiadau i'r fynedfa amaethyddol bresennol er mwyn ei wneud yn dderbyniol ac mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau y byddai'r lleiniau gwelededd sydd wedi'u dangos yn dderbyniol ar gyfer y bwriad. Nodir fod cynlluniau diwygiedig wedi eu cyflwyno sy'n ychwanegu man sefyll ar gyfer safle bws i'r ochr orllewiniol y fynedfa ynghyd a symud 'chevron' presennol er mwyn darparu'r newidiadau i'r fynedfa. Ar sail sylwadau'r Uned Briffyrdd ar yr elfen yma, ystyrir fod darparu man aros bws yn y lleoliad yma gyda'r potensial i achosi perygl i ddefnyddiwyr ffordd a cherddwyr.

5.22 Mae'r man aros ar un ochr i'r ffordd yn unig ac felly byddai unrhyw un sydd angen dal bws yn teithio tua Gaernarfon yn cael ei orfodi i sefyll ar y briffordd ei hun. Byddai'r arosfan yn galluogi i'r rhai hynny sydd am ddal bws i gyfeiriad Criccieth wneud hynny drwy sefyll ar lecyn pwrpasol oddi ar y ffordd, ond nid oes lle tynnu i mewn yn cael ei ddarparu. Golygai hyn y byddai bws yn arafu ac yn stopio nepell oddi ar cornel a bont dros afon gyda waliau carreg cul. Byddai traffig y tu ol i'r bws yn cael ei orfodi i aros tu ol i'r bws tra y bydd wedi stopio, neu goddiweddyd y bws ar ochr arall y ffordd ar gornel i'r dde ac yn teithio tuag at traffig heb unrhyw welededd o'r naill ochr.

5.23 Byddai gwelededd cerbydau sy'n tynnu allan o fynedfa'r bwriad hefyd yn cael ei effeithio gan y byddai'r bws yn stopio ar y ffordd cyhoeddus union i'r dde o'r fynedfa.

5.24 I'r perwyl hyn, nid yw swyddogion cynllunio wedi eu argyhoeddi y byddai'r bwriad yn ei gyfanrwydd yn gallu darparu mynedfa gerbydol digonol na diogel ar gyfer y bwriad nac ar gyfer defnyddwyr eraill y briffordd, ac fel sydd wedi ei nodi eisoes yn yr adroddiad yma, mae effaith weledol y newidiadau i'r fynedfa ger y briffordd yn annerbyniol ac wedi ei asesu o dan 'egwyddor y datblygiad' uchod. Ystyrir felly fod y bwriad yn groes i ofynion polisi TRA 4 o'r CDLl.

**Materion Bioamrywiaeth a Choed**

5.25 Mae Asesiad Ecolegol ac Arolwg Coed wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais. Mae ymateb yr Uned Bioamrywiaeth wedi ei dderbyn ar gyfer yr asesiadau yma ac mae'n cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad cyn belled ac fod y mesuraru lliniaru sydd wedi eu nodi yn cael eu darparu ar y safle. I'r perwyl hyn ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS 19, AMG 3, AMG 5 ac AMG 6 o'r CDLl.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.26 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol. Mae'r trothwyon o ran

pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o'r CDLl ar y Cyd ynghyd a Diagram 5 o'r CCA. Nid yw'r bwriad arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon hyn.

5.27 Er nad oes angen cyflwyno Datganiad/Adroddiad ffurfiol, mae'n angen rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg yn unol â'r arweiniad sydd yn Atodiad 5 CCA 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Mewn perthynas â hyn mae Datganiad Iaith Gymraeg wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd ac mae'n nodi'r pwyntiau canlynol:

- Byddai arwyddion cyfeiriadol a mewnol yn ddwyieithog.
- Byddai gwybodaeth am atyniadau, cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn cael ei darparu o fewn y safle.
- Bwriedir codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (e.e. Byrddau gwybodaeth gydag ymadroddion Cymraeg allweddol o ddydd i ddydd) gan annog pobl ar eu gwyliau i ddysgu'r iaith.
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth leol.

5.28 I'r perwyl yma, ystyrir bod y bwriad yn cyd-fynd hefo'r arweiniad sydd wedi ei gynnwys yn rhan 'CH' o Atodiad 5 yn y CCA.

**Cynaladwyedd**

5.29 Mae polisi PS 5 (Datblygiadau Cynaliadwy) yn cefnogi datblygiadau sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, a ble'n briodol, dylai datblygiadau:

*"Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4" (Pwynt bwled 12, Polisi PS 5)"*

Ategir hyn gan bwynt bwled 4 polisi PS 14 (Yr Economi Ymwelwyr).

5.30 Ystyrir bod polisïau'r CDLL yn gyson gyda pholisïau cynllunio cenedlaethol o safbwynt sut mae'n ymdrin gydag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.

5.31 Byddai defnyddwyr yr unedau gwyliau, yn y mwyafrif, yn defnyddio'r car preifat i gyrraedd y safle ac er y cydnabyddir fod llwybrau cyhoeddus a beicio yn agos, nid yw'r rhwydwaith ffyrdd a'r llwybrau yn gwneud hyn yn opsiwn diogel, deniadol na tebygol.

5.32 Nodir bod yr arosfan bws arfaethedig wedi ei leoli gyferbyn a mynedfa i'r safle a bod y bwriad yn darparu 'ardal aros am fws' ger mynedfa'r safle. Mae'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad yw lleoli'r arosfan yma yn dderbyniol o ran effaith weledol ar yr ardal nac o ran diogelwch ffyrdd. Yn ogystal, nodir mai'r ganolfan agosaf i'r safle sydd yn cynnig ystod gyfyngedig o wasanaethau yw Criccieth (oddeutu 3 cilomedr i ffwrdd). Yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau materol cynllunio perthnasol, ystyrir bod y datblygiad wedi ei leoli mewn safle anghynaliadwy, ac fod y bwriad felly yn groes i ofynion polisïau PS4, PS5 a PS14 o'r CDLL ynghyd a chydymffurfio a'r cyngor a gynhwysir yn NCT18, a PCC.

## 6. Casgliadau:

6.1 Ar sail yr uchod ystyrir nad yw'r bwriad yn gallu cwrdd gyda holl ofynion y polisïau perthnasol ac y byddai'r bwriad yn achosi effaith andwyol a sylweddol ar y tirwedd a diogelwch ffyrdd.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod – rhesymau

1. Mae’r newidiadau i’r fynedfa bresennol er mwyn creu mynedfa derbyniol i’r safle (yn nhermau diogelwch ffyrdd) yn cael effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad gwledig a mwynderau gweledol yr ardal sy’n groes i ofynion meini prawf ii ac iii o bolisi TWR 3, AMG 3 a PCYFF 2 a 4 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 sy’n gwarchod mwynderau ac effaith weledol ar y dirwedd lleol.

2. Mae darparu arosfan bws ger y fynedfa bresennol sydd i’w gwella yn debygol o achosi effaith andwyol ar ddiogelwch ffyrdd sy’n groes i ofynion polisi TRA 4 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 2017 sy’n sicrhau diogelwch ffyrdd.

3. Mae'r safle wedi'i leoli mewn lleoliad gwledig ac oddeutu 3km i'r dref / pentref agosaf sydd â gwasanaethau a’r safle bws agosaf. Nid yw’r rhwydwaith ffyrdd na’r llwybrau lleol yn hwylus i’w defnyddio o’r safle ac mae’r arosfan bws bwriedig sy’n ffurfio rhan o’r cais yn anaddas. Oherwydd lleoliad gwledig y cynnig, byddai ymwelwyr yn debygol iawn o ddefnyddio eu cludiant eu hunain i deithio i'r safle ac atyniadau/siopa/gwasanaethau yn ystod eu harhosiad, ac felly nid yw’r safle yn hygyrch ac wedi ei leoli mewn sy’n lleihau’r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat. Ar sail hyn, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion polisi PS4, PS14, maen prawf 12 o bolisi PS5 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 2011-2026, Nodyn Cyngor Technegol 18 Trafnidiaeth ac Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11.